

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 24/09/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	DOLGELLAU

Rhif: 2

Cais Rhif: C18/0048/39/LL

Dyddiad 23/01/2018

Cofrestru:

Math y Cais: Llawn - Cynllunio

Cymuned: Llanengan

Ward: Abersoch

Bwriad: Adeiladu cwt glan mor newydd heb gydymffurfio ac amod 2 ar ganiatâd cynllunio C15/0537/39/L dyddiedig 3 Gorffennaf 2015

Lleoliad: Cwt Glan Mor 15, Traeth Abersoch, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7EY

Crynodeb o'r Argymhelliad: GWRTHOD

1. Disgrifiad:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 24/09/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	DOLGELLAU

- 1.1 Cais yw hwn i gadw gwaith o ddymchwel y cwt glan môr gwreiddiol ac adeiladu cwt glan môr newydd yn ei le heb gydymffurfio â chaniatâd cynllunio a roddwyd ar y 3 Gorffennaf 2015. Rhoddwyd caniatâd i godi cwt newydd oedd yn mesur 5.5. Medr wrth 3.7 medr mewn arwynebedd llawer, a gydag uchder crib oedd ddim uwch na'r cytiau presennol naill ochr a'r llall. Mae'r cwt fel y'i hadeiladwyd yn mesur 5.7 medr wrth 5.5 medr, ac yn ymestyn 0.9 medr yn uwch na chrib y cytiau naill ochr a'r llall. Mae llwyfan sydd yn mesur 4.9 medr wrth 5.5 medr wedi ei adeiladu i flaen y cwt, a gyda man storio oddi tano. Mae muriau'r cwt wedi ei orchuddio gyda sitiau dur proffil glas tywyll, a gyda drws dur 'roler shutter' wedi ei baentio'n wyn ar yr edrychiad blaen, tra bod y to brig wedi ei orchuddio gyda sitiau proffil llwyd tywyll. Mae'r llwyfan o flaen y cwt wedi ei adeiladu o baneli concriid, ac ni ymddengys bod bwriad i'w gorchuddio gyda phren.
- 1.2 Saif y cwt ymysg rhes o gytiau glan y môr eraill ar draeth Borth Fawr yn Abersoch. Safle arfordirol cefn gwlad ydyw sydd o fewn dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn, ger Arfordir Treftadaeth ac o fewn dynodiad Ardal Rheoli Newid Arfordirol.
- 1.3 Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor Cynllunio gan fod mwy na tri gwrthwynebiad wedi ei dderbyn.

2. Polisiâu Perthnasol:

- 2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- 2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
 ARNA 1 : Ardal Rheoli Newid Arfordirol
 PS 19: Gwarchod lle'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol
 AMG 1: Cynlluniau rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol
 AMG 4: Gwarchod yr Arfordir
 AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

2.4 Polisiâu Cenedlaethol:

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) 2016
 Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

3. Hanes Cynllunio Perthnasol:

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 24/09/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	DOLGELLAU

- 3.1 C15/0537/39/LL - Dymchwel cwt glan y môr presennol a chodi cwt glan y môr newydd ac ardal decio cysylltiedig. Caniatawyd gydag amodau - 3 Gorffennaf 2015.

4. Ymgynghoriadau:

Cyngor
Cymuned/Tref:

Gwrthwynebir oherwydd na chadwyd at y cynllun gwreiddiol. Cefnogwyd hwnnw ar yr anod y cedwid at faint y cwt gwreiddiol. Mynegwyd y dylid sicrhau bod unrhyw gais am adeiladu cwt yn y dyfodol yn cynnwys amod mai o goed neu haearn/fetel rhychiog, fel y gweddill y cytiau, a ddylai fod nid o goncrid a thrawstiau dur fel hwn. Gofynnwyd, hefyd, a yw'n fwriad gan Gyngor Gwynedd fynnu bod yr ymgeisydd yn ei ddymchwel a'i adeiladu yn unol â'r caniatâd gwreiddiol, a, hyd yn oed, ei ddirwyo fel gwnaeth Cyngor Sir Caerlŷr yn dilyn achos o adeiladu'n groes i ddyfarniad cynllunio yr wythnos hon?

Aelod Lleol:

'Rwyf yn gwrthwynebu y cais oherwydd diffyg cadw i'r amodau o'r datblygiad a'r adeilad ddim yn gweddu

Uned Ardal o
Harddwch Naturiol
Eithriadol:

Mae'n destun pryder fod y cwt glan môr newydd wedi ei adeiladu yn wahanol i'r cynlluniau a ganiatawyd yn 2015.

Mae'r adeilad yn uwch na'r hyn a ddangosir ar y cynlluniau ac yn ymestyn ychydig i'r twyni. Nid yw hyn fodd bynnag yn newid edrychiad gweledol y cwt yn sylweddol. Ar y llaw arall mae'r drws "roller" haearn a'r llwyfan concrid yn elfennau dieithr yn y lleoliad hwn ac nid ydynt yn gweddu.

Uned
Bioamrywiaeth:

Dim pryderon bioamrywiaeth am y cais.

Dwr Cymru:

Dim sylwadau i'w cynnig mewn perthynas â'r cais yma.

Cyfoeth Naturiol
Cymru:

Nid oes gennym wrthwynebiad i'r cais, ond mae gennym y sylwadau canlynol:

Mae safle'r cais y tu allan ond yn agos at barth C2, fel y diffinnir gan y map cyngor datblygu y cyfeirir ato dan TAN 15 Datblygu a Pherygl Llifogydd (Gorffennaf 2004).

Mae gwybodaeth ein map llifogydd diweddaraf yn cadarnhau fod y cwt glan môr yn union y tu allan i amlinellau llifogydd llanwol 1% (1 mewn 100 mlynedd) ac 0.1% (1 mewn 1000 mlynedd). Fodd bynnag, oherwydd lleoliad arfordir agored y cwt, dylai'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r risg gan lifogydd o ganlyniad i symudiadau'r tonnau. Hefyd, gallai cynnydd yn lefel y môr o ganlyniad i newid hinsawdd arwain at stormydd a llifogydd mwy mynych. O'r herwydd rydym

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 24/09/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	DOLGELLAU

yn argymhell fod y deunyddiau adeiladu a ddewisir mor gadarn ag sydd bosibl ac yn gwrthsefyll llifogydd.

Mae'r cynnig yn union y tu allan i Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Os ymgwymerir â rhagofalon atal llygredd a rheoli gwastraff priodol ni chredwn y bydd y datblygiad yn effeithio ar y nodweddion nac ar amcanion cadwraeth y safle dynodedig hwn.

Rhaid i unrhyw wastraff deunyddiau cloddio neu wastraff dymchwel neu adeiladu a gynhyrchir yn ystod y gwaith hwn gael ei waredu mewn ffordd foddhaol ac yn unol â gofynion Dyletswydd Gofal Adran 34 Deddf Diogelu Amgylchedd 1990.

Rydym yn eich cyfeirio at 'Ganllawiau i ddatblygwyr' CNC. Gofynnwn yn garedig fod copi o'r canllawiau yn cael ei ddarparu i'r ymgeiswyr gydag unrhyw ganiatâd a roddir ar gyfer y cynnig.

Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn unig â materion penodol a welir ar ein rhestr gyfeirio "Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymgynghoriadau Cynllunio" (Mawrth 2015) sydd ar <https://naturalresources.wales/media/5271/150302-natural-resources-wales-and-planning-consultations-final-eng.pdf>. Nid ydym wedi ystyried yr effeithiau posibl ar faterion eraill ac ni ellir diystyru'r posibilrwydd y gall y datblygiad arfaethedig effeithio ar fuddiannau eraill, gan gynnwys buddiannau amgylcheddol o bwysigrwydd lleol.

Dylid tynnu sylw ymgeiswyr at y ffaith, mai eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau eu bod yn cael y trwyddedau/caniatâd sy'n berthnasol i'w datblygiad, yn ogystal â chaniatâd cynllunio.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 24/09/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	DOLGELLAU

Ymgynghoriad
Cyhoeddus:

Rhoddwyd rhybudd ar y safle. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben ar 20 Chwefror 2018. Derbyniwyd 7 gwrthwynebiad, yn cynnwys gwrthwynebiad gan Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, ar sail:

- Datblygiad ddim yn unol â'r cynlluniau gwreiddiol a gymeradwywyd;
- Cyfrannedd ddim yn gweddu gyda chytiau naill ochr a'r llall;
- Ymddangos fel uned ddiwydiannol oherwydd y defnydd o ddrws 'roller shutter' a phaneli concriid fel llwyfan, ac felly allan o gymeriad gyda'r traeth;
- Maint y cwt yn anghymesur gyda chytiau eraill ar y traeth;
- Dyluniad diwydiannol annerbyniol yn creu cynsail ar gyfer ail-adeiladu cytiau eraill mwy yn y dyfodol a all gael effaith negyddol ar dwristiaeth ac allan o gymeriad gyda'r traeth;
- Crib y to yn amlwg uwch na'r cytiau cyfochrog iddo ac yn groes i bolisi PCYFF3 o safbwynt gosodiad, ymddangosiad, graddfa, uchder, crynswth a thriniaeth o'r drychiadau;
- Creu gor-ddatblygiad annerbyniol yn ardal y traeth;
- Datblygiad yn sylweddol fwy na'r cwt gwreiddiol a beth a ganiatawyd.

5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

Mwynderau gweledol a thirlun

- 5.1 Mae'r cais yn ymwneud â chadw cwt glan môr mwy na'r hyn a ganiatawyd yn wreiddiol, ac sydd yn sylweddol fwy ran maint na'r hyn a oedd yn bodoli ar y safle yn wreiddiol. Mae'r cwt a adeiladwyd yn mesur 5.5 medr o led ac yn ymestyn yn ôl 5.7 medr o linell adeiladu'r cytiau. Mae'r llwyfan pren yn ymestyn allan 4.9 medr i flaen y cwt, ac mae lle storio caeedig oddi tano. Tra bod y cwt a ganiatawyd yn wreiddiol yn ymestyn i'r un uchder a'r cytiau cyfochrog, mae crib to y cwt a adeiladwyd ar y safle yn mesur 0.9 medr yn uwch na'r cytiau naill ochr a'r llall iddo. Mae drws dur o fath 'roller shutter' wedi ei osod ar y drychiad blaen, ac sydd yn rhoi ymddangosiad diwydiannol iddo. Yn ogystal, mae dyfnder y cwt yn sylweddol o gymharu â'r cytiau eraill, ac mae peth gwaith o dyrchu mewn i'r dwynen wedi cymryd lle er mwy cymhwyso adeilad o'r maint yma.
- 5.2 Mae Polisi PCYFF 3 yn datgan bod disgwyl i bob cynnig arddangos dyluniad o ansawdd uchel sy'n rhoi ystyriaeth lawn i gyd-destun yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac sy'n cyfrannu at greu llefydd deniadol a chynaliadwy. Caniateir cynigion dim ond os ellir cydymffurfio â'r cyfan o'r meini prawf a nodir yn y polisi. Yn eu mysg, bod y datblygiad yn ychwanegu at ac yn gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle, yr adeilad neu'r ardal o ran y gosodiad, yr ymddangosiad, y raddfa, yr uchder, crynswth a'r driniaeth i'r drychiadau. Hefyd, ei fod yn parchu cyd-destun y safle a'i le yn y dirwedd leol.
- 5.3 Mae nifer o sylwadau wedi eu derbyn sydd yn mynegi pryder am y bwriad, ar sail maint, uchder a dyluniad gorffenedig y cwt, a dyma'r rheswm dros ei gyflwyno i'r pwyllgor. Yn yr achos arbennig hwn nodir bod dyfnder ac uchder y cwt newydd yn sylweddol fwy na'r hyn a oedd yn bodoli ar y safle yn wreiddiol, a'r hyn a ganiatawyd yn 2015. Mae'r cwt fel y'i hadeiladwyd yn mesur 0.9 medr yn uwch na'r cytiau naill

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 24/09/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	DOLGELLAU

ochr a'r llall iddo, ac mae pryder nad yw'r cynnydd di-ganiatâd ym maint, uchder, graddfa a chrynsyth y cwt fel ei adeiladwyd yn gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle. Yn ychwanegol i hyn ystyrir bod y cwt, oherwydd ei faint a'r cyfuniad o'i ddyluniad a gorffeniad allanol, yn edrych yn fwy tebyg i adeilad diwydiannol nac i gwt glan môr traddodiadol.

- 5.4 Sylweddolir yr angen i sicrhau bod gorffeniad unrhyw adeilad o ddeunyddiau a fydd yn gallu sefyll i fynnu i nodweddion hinsoddi arfordirol, ond ystyrir bod maint yr adeilad ynghyd a'r cyfuniad o ddeunyddiau a dyluniad nad sydd yn adlewyrchu defnydd bwriadedig yr adeilad, yn golygu bod y datblygiad yn ei ffurf bresennol yn groes i bolisi PCYFF 3 CDLL, ac nad yw yn parchu ei gyd-destun safle a'i le yn y dirwedd.
- 5.5 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn, felly mae polisi AMG 1 yn ystyriaeth yma. Gan fod y cwt yn cymryd lle un blaenorol, ac ymysg rhes o gytiâu tebyg, ni ystyrir y byddai egwyddor cyfnewid cwt glan mor yn effeithio'n sylweddol ar osodiad na golygfeydd arwyddocaol i mewn i'r AHNE. Serch hynny, nodir bod pryder gan y Swyddog AHNE nad yw'r cwt yn unol â'r hyn a ganiatawyd yn wreiddiol, er nad yw'r hyn a adeiladwyd yn newid sylweddol i'r drychiad allanol a ganiatawyd yn wreiddiol. Nid oes gwrthwynebiad i'r cais mewn egwyddor, ond nodir ymhellach nad yw'r drysau 'roller shutter' na'r llwyfan concriid yn nodweddion sydd yn gweddu i'r lleoliad. Nodir y byddai modd gosod drws o'r fath ar unrhyw gwt presennol heb yr angen i gael caniatâd cynllunio, ac yn wir mae hawl wedi ei roi ar gyfer gosod drysau o'r math yma ar rai cytiâu eraill sydd wedi eu hail-ddatblygu ar y traeth. Nid yw'r defnydd o ddrws 'roller shutter' ynddo ei hun yn reswm digonol i gyfiawnhau gwrthod y cais presennol, a gellir gosod amod yn gorfodi i'r llwyfan pren gael ei orchuddio gyda phren pe bai angen, ond mae ymdeimlad o naws diwydiannol i edrychiad a gorffeniad presennol yr adeilad, ac ystyrir bod y datblygiad yn ei ffurf bresennol yn groes i bolisi AMG 1 ac egwyddorion polisi PS 19 CDLL.
- 5.6 Gan fod y cais yn ymwneud ac amnewid cwt oedd yn bodoli yn wreiddiol am un mwy, yn hytrach na datblygiad arfordirol o'r newydd, ystyrir bod y cais yn cwrdd ag egwyddorion polisi AMG 4 CDLL. Oherwydd natur y defnydd mae'n ofynnol ei leoli ar lan y môr a byddai a chysylltiad gweledol agos ag adeiladau a strwythurau sy'n bodoli eisoes.

Materion Llifogydd a rheoli newid arfordirol

- 5.7 Mae polisi ARNA 1 yn ystyriaeth yma, ble y dylid osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd arfordirol bregus mewn ymgais i leihau risgiau o lifogydd ac effaith erydu arfordirol. Er bod y safle o fewn Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARhNA) mae'r bwriad dan sylw yn gallu bod yn dderbyniol o fewn yr ARhNA, gan ei bod yn gysylltiedig â defnydd dibreswyl presennol ar y safle. Er bod maen prawf 6 yn gofyn am gyflwyno asesiad llifogydd, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn am asesiad o'r fath yn eu sylwadau, dim ond datgan fod y safle tu allan i'r amlinelliad llifogydd a thynnu sylw at y posibilrwydd o lifogydd gan gynghori y dylai'r cytiâu fod o ddeunyddiau addas. Cyfnewid cwt presennol am gwt mwy yw'r bwriad a ystyrir yn dderbyniol o ran egwyddor polisi ARNA 1 CDLL.

Materion Bioamrywiaeth

- 5.8 Nid oedd gan y Swyddog Bioamrywiaeth unrhyw bryderon bioamrywiaeth ar y cais, felly ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd polisi AMG 5 CDLL.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 24/09/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	DOLGELLAU

Unrhyw faterion eraill

5.9 Ysgrifennwyd at yr ymgeisydd ar y 6 Mawrth 2018 yn datgan pryder ynglŷn ag uchder y cwt newydd mewn perthynas â'r cytiau eraill ar y traeth, a'r effaith y mae'r cynnydd uchder a drychiad diwydiannol yr adeilad yn ei gael ar amwynder gweledol a chymeriad yr AHNE. Gofynnwyd i'r ymgeisydd ystyried gostwng uchder crib to'r cwt i'r un uchder a'r cytiau naill ochr a'r llall, ynghyd â thynnu'r drws 'roller shutter' a gosod drysau traddodiadol pren yn ei le. Derbyniwyd ymateb gan ei asiant ar y 5 Gorffennaf 2018 yn egluro bod cytiau o wahanol faint ar y traeth yn barod, a bod hyn yn cyfrannu at gymeriad a chyfaredd y cytiau. Datgenir bod gwahaniaeth sylweddol i'r cytiau yn nhermau uchder, arwynebedd llawr, lled, lliw, agoriadau, llwyfannau neu beidio, a bod hyn i gyd yn cyfrannu at eu cyfaredd. Datgenir yn ogystal mai elfen fechan iawn o ardal yr AHNE yw'r cwt, ac na fyddai un cwt, o faint a'r gorffeniad yma, yn niwed materol i'r AHNE.

5.10 Nodir ymateb yr asiant. Fodd bynnag, tra bod angen ystyried pob cais ar ei haeddiant ei hun, mae hefyd angen ystyried effaith gronol datblygiadau o'r fath ar ardal benodol, ac yn enwedig oddi fewn yr AHNE, sydd yn ddynodiad statudol o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn gwbl glir mai prif amcan wrth ddynodi AHNE yw gwarchod a gwella ei harddwch naturiol. Dylai polisïau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio ar AHNE ffafrio diogelu harddwch naturiol, er ei fod hefyd yn briodol ystyried lles economaidd a chymdeithasol yr ardaloedd. Mae gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill ac awdurdodau perthnasol eraill ddyletswydd statudol i barchu dibenion AHNE. Nid yw dynodiad statudol, o reidrwydd, yn gwahardd datblygu, ond rhaid asesu cynigion ar gyfer datblygu'n ofalus o ran eu heffaith ar yr elfennau hynny o dreftadaeth naturiol y bwriadwyd eu diogelu drwy'r dynodiad.

6. Casgliadau:

6.1 Nodir nad oes caniatâd cynllunio ar gyfer y cwt sydd wedi ei adeiladu, gan nad yw wedi ei adeiladu yn unol â'r cynllun a ganiatawyd yn 2015. Mae'r cwt yn fwy na'r hyn a ganiatawyd y pryd hynny. Serch hynny, mae'n bwysig cofio bod rhaid i bob cais a gyflwynir i'r awdurdod cynllunio lleol gael ei benderfynu ar ei haeddiant ei hun. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn glir mai'r mater tyngedfennol i'r awdurdod yw a fyddai torri rheolau cynllunio yn effeithio'n annerbiniol ar amwynder cyhoeddus neu'r defnydd presennol o dir ac adeiladau sy'n haeddu cael eu diogelu er lles y cyhoedd. Dylai unrhyw gam gorfodi fod yn gymesur â'r achos o dan sylw. Dylid anelu at gywiro effeithiau'r tor rheolaeth gynllunio, yn hytrach na chosbi'r sawl sy'n gyfrifol am wneud hynny.

6.2 Ers dyfodiad Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yng Ngorffennaf 2017, mae dau gais wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor ar gyfer amnewid cytiau gwreiddiol am rhai newydd ar draeth Borth Mawr, Abersoch. 'Roedd un yn mesur 5 medr o hyd a 3.5 medr o led, a'r llall yn mesur 5 medr o hyd a 4.2 medr o led. Mae'r ddau yn mesur 3.3 medr o uchel uwchlaw'r llwyfannau pren o'u blaen. Mae arwynebedd y cwt sydd yn destun y cais hwn yn mesur 5.5 medr o hyd a 5.7 medr o led. Felly gellir gweld bod arwynebedd y cytiau glan mor yn cynyddu ar hyd yr adeg. Yn ychwanegol i hyn, mae uchder y cwt newydd yn mesur 4.5 medr uwchben lefel y llwyfan sydd o'i flaen, tra bod y cytiau naill ochr a'r llall yn mesur 3.6 medr o uchel.

PWYLLGOR CYNLLUNIO	DYDDIAD: 24/09/2018
ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD	DOLGELLAU

- 6.3 Wedi asesu'r bwriad yn erbyn y polisiau perthnasol, ac ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a gyflwynwyd i gyd, ystyrir fod y cwt glan môr a adeiladwyd yn annerbyniol o ran maint, crynswth a dyluniad. Mae'r datblygiad, oherwydd ei faint a'i grynswth yn anghymesur â chymeriad ac edrychiad traddodiadol cytiau glan mor, ac mae ei ddyluniad yn debycach i adeilad diwydiannol. Os caniateir i adael i gytiau glan môr mwy a mwy cael eu datblygu, bydd eu heffaith yn difetha naws a chymeriad ardal glan môr Abersoch, a'r AHNE sydd yn ddynodiad o bwysigrwydd cenedlaethol. Ystyrir bod y cais presennol yn groes i'r polisiau cynllunio sydd wedi eu cyfeirio atynt yn adroddiad hwn, ac ni ellir gwneud argymhelliad i ganiatáu cadw'r cwt yn ei ffurf bresennol am y rhesymau sydd eisoes wedi eu nodi.

7. **Argymhelliad:**

7.1 Gwrthod –

1. Maint, uchder, crynswth a dyluniad diwydiannol y datblygiad yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar fwynderau gweledol a chymeriad yr AHNE yn groes i bolisiau PCYFF 3, PS 19 a AMG 1 Cyn llun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026.